
## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – PYSGOD ADRAN 7 'Â BLAENORIAETH'

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.
Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Alosa alosa* - herlyn<br><br>*Alosa fallax* - gwangen<br><br>© Sefydliad Gwy ac Wysg | **Statws presennol:**<br>• Mae poblogaeth sylweddol o wangod yn silio ym mhen isaf Afon Tywi (un o lond dwrn o safleoedd yn unig ym Mhrydain), a defnyddir aber y 'Tair Afon' a Chilfach Tywyn yn gynefin meithrin. Anaml y bydd yn mynd uwchlaw Llandeilo.<br>• Mae herlod yn llawer prinnach, ond ceir tystiolaeth enetig mai cyfuniad o'r ddau fath o bysgodyn yw cyfran fawr o'r herlod yn Afon Tywi.<br>•**Tueddiadau:** Credir bod y ddwy rywogaeth yn bresennol mewn niferoedd da a chynyddol yn Afon Tywi, ond mae hyn i raddau helaeth yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd, ac mae angen ymchwil bellach.<br>•**Bygythiadau:** Colli graean silio wrth i waddod a maetholion lifo i mewn i afonydd, ansawdd gwael y dŵr ac addasiadau i'w cynefin, gan gynnwys sythu afonydd sy'n cynyddu'r wyau a'r pysgod ifanc sy'n cael eu golchi ymaith pan fo'r llif yn uchel. Mae rhwystrau yn yr afon yn cael llai o effaith ar y rhywogaeth hon, gan nad oes unrhyw rwystrau yn rhan isaf Afon Tywi, y rhan o'r afon y maent yn byw ynddi. Credir hefyd mai dyma un o'r ychydig rywogaethau y tybir eu bod yn gallu gwrthsefyll y cynnydd mewn tymheredd yn sgil y newid hinsawdd yn well, ond maent yn llawer llai gwydn yn wyneb y llifoedd eithafol a ddisgwylir o dan gylchred El Nino. | • Cynyddu gallu afonydd i wrthsefyll digwyddiadau llif isel ac uchel eithafol yn gysylltiedig â'r hinsawdd - adfer afonydd (ailnaturioli)<br>• Gwelliannau i ddalgylchoedd er mwyn gwella ansawdd y dŵr, gan gynnwys lleihau gwaddod sy'n dod i mewn i'r afon sy'n gorchuddio'r graean, a maetholion sy'n creu twf algâu gormodol a hefyd yn gorchuddio'r graean.<br>• Mesurau Rheoli Llifogydd Naturiol dalgylch cyfan i ostwng llif brig i afonydd gan leihau'r wyau/pysgod ifanc sy'n cael eu golchi ymaith. |
| *Anguilla anguilla* - llysywen<br><br>© Dave Mee | •**Statws presennol:** Cyffredin mewn afonydd, llynnoedd a phyllau ledled y sir, ond yn llawer llai niferus nag yn y gorffennol.<br>•**Tueddiadau:** Credir bod ei niferoedd wedi gostwng cymaint â 95% ers y 1970au.<br>•**Bygythiadau:** O safbwynt morol, mae newid hinsawdd yn newid y cerhyntau ac yn effeithio ar symudiad pysgod ifanc i'n systemau afonydd. O safbwynt afonol, mae coredau ymhlith y prif broblemau i bysgod ifanc sy'n mudo i fyny'r afon - mae cael gwared â choredau neu gyflwyno llwybrau i lyswennod o gymorth i liniaru hyn. Mae gwlyptiroedd a gorlifdiroedd hefyd yn gynefin allweddol i lyswennod ac mae'r mathau hyn o gynefinoedd wedi dirywio'n ddifrifol ledled y DU. Mae clefydau, parasitau a phlaladdwyr hefyd wedi effeithio ar allu'r rhywogaeth hon i | • Mae angen gwneud mwy o waith i fonitro llyswennod i'n helpu i gael dealltwriaeth well o'u gwasgariad ac o gynefinoedd allweddol yn yr ardal.<br>• Cael gwared â rhwystrau yn yr afon fel coredau<br>• Ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd (mae gorlifdiroedd yn fannau bwydo hanfodol i lyswennod)<br>• Gwneud gwaith i adfer cynefinoedd mewn afonydd, fel ailgyflwyno troeon mewn afonydd, ac ychwanegu coed ar y glannau a deunydd coediog mawr yn llif yr afon.<br>• Gwella dalgylchoedd i wella ansawdd dŵr |

| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | oroesi.<br>**Camau gweithredu cyfredol:**<br>• Ar Afon Tywi, caiff pob llysywen a welir wrth fonitro pysgod ei mesur (12 safle y flwyddyn). Caiff yr wybodaeth hon ei mewnbynnu i Asesiad Llyswennod Cymru.<br>• Ar gyfer falfiau clec ar nentydd arfordirol mae'n ofynnol cael llwybrau i lyswennod i'w helpu i fynd heibio. Mae pedwar llwybr pysgod ar ddeg wedi cael eu gosod ar afonydd yn y sir ers 2010 gan CNC, sydd wedi rhwyddhau taith llyswennod, ac mae nifer o lwybrau pysgod eraill wedi cael eu gosod, a choredau wedi'u tynnu gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru. | |
| *Lampetra fluviatilis* - llysywen bendoll yr afon<br><br>Llyswennod pendoll yr afon yn troi'n 'fwy ariannaidd' yn barod i fynd i'r môr © CNC. | • Bydd y llyswennod ifanc yn byw mewn gwaddod am amryw o flynyddoedd. Bydd oedolion yn bwydo ar bysgod bach mewn aberoedd a dyfroedd mewndirol.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** Mae coredau a morgloddiau yn broblem fawr am eu bod yn hatal y rhywogaeth hon rhag cyrraedd cynefinoedd sy'n hanfodol i'r cyfnodau yn ei gylch bywyd. Mae ansawdd dŵr gwael yn effeithio'n uniongyrchol ar allu'r rhywogaeth hon i oroesi, ac mae addasiadau i ffurf afonydd hefyd wedi achosi gostyngiad mewn niferoedd yn sgil colli cynefin. | • Cael gwared â rhwystrau yn yr afon fel coredau<br>• Adfer cynefinoedd mewn afonydd er mwyn gwella amrywiaeth, fel ailgyflwyno troeon mewn afonydd.<br>• Gwelliannau i'r dalgylch er mwyn gwella ansawdd y dŵr. |
| *Petromyzon marinus* - llysywen bendoll y môr<br> | • **Statws presennol:** credir bod poblogaeth iach o lyswennod pendoll y môr yn Afon Tywi.<br>Bydd dros 2500 o'r llyswennod trawiadol hyn yn esgyn i fyny Afon Tywi mewn rhai blynyddoedd, gan gyrraedd mor bell â Llanymddyfri ar y brif afon a Llanymddyfri ar Afon Brân a Phumsaint ar Afon Cothi. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn amrywiol iawn. Bydd llyswennod ifanc yn byw wedi'u claddu o dan waddod am 3 blynedd cyn mudo i'r môr lle maen nhw'n bwydo'n barasitig ar bysgod mawr.<br>•**Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** Mae coredau a morgloddiau yn broblem fawr am eu bod yn atal y rhywogaeth hon rhag cyrraedd cynefinoedd sy'n hanfodol i'r cyfnodau yn ei gylch bywyd. Mae ansawdd dŵr gwael yn effeithio'n uniongyrchol ar allu'r rhywogaeth hon i oroesi, ac mae addasiadau i ffurf afonydd hefyd wedi achosi gostyngiad mewn niferoedd yn sgil colli cynefin. | • Cael gwared â rhwystrau yn yr afon fel coredau<br>• Adfer cynefinoedd mewn afonydd er mwyn gwella amrywiaeth, fel ailgyflwyno troeon mewn afonydd.<br>• Gwelliannau i'r dalgylch er mwyn gwella ansawdd y dŵr. |
| *Salmo salar* — eog | •**Statws presennol:** Er bod eu niferoedd wedi gostwng, maent yn dal i'w cael yn eang yn holl afonydd Sir Gaerfyrddin.<br>•**Tueddiadau: Gostyngiadau nodedig** - Mae model o adroddiad newydd gan CNC ar statws poblogaethau bach o eogiaid yng Nghymru wedi dangos mai Afon Taf yw un o'r afonydd sy'n perfformio waethaf, a'i bod yn bosib y bydd yr eog wedi diflannu ohoni o fewn degawd neu ddau. Ar afon Tywi, er bod y poblogaethau'n prinhau, mae hynny'n | • Cael gwared â rhwystrau yn yr afon fel coredau<br>• Gwneud gwaith i adfer cynefinoedd mewn afonydd, fel ailgyflwyno troeon mewn afonydd, ac ychwanegu coed ar y glannau a deunydd coediog mawr yn llif yr afon.<br>• Ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd i leihau cyflymder y dŵr ac atal wyau/pysgod ifanc rhag cael eu golchi ymaith pan fo'r llif yn uchel.<br>• Gwelliannau i'r dalgylch er mwyn gwella |

| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>© Dave Mee | digwydd i raddau llawer llai na'r gostyngiadau mewn afonydd cyfagos.<br>•**Bygythiadau:** Y prif fygythiadau i eogiaid a brithyllod mewn afonydd yw ansawdd dŵr gwael, sythu sianeli a gor-ledu, lleihau cynefinoedd a'r gallu i wrthsefyll llif eithafol yn gysylltiedig â'r hinsawdd, a difrod i gynefin yn sgil gorbori ar lannau afonydd, sy'n achosi i afonydd orgynhesu, yn eu llenwi â silt ac yn golygu colli cysgod. Mae rheolaeth wael o blaladdwyr/slyri, gan gynnwys gollyngiadau, hefyd yn lladd y pysgod a'r infertebratau y mae'r pysgod yn bwydo arnynt. Mae colli mynediad i gynefin silio oherwydd argaeau a morgloddiau hefyd yn broblem, ac mewn ardaloedd ucheldirol mae asideiddio yn parhau i roi straen ar boblogaethau, a choedwigaeth yn gwaethygu hynny. Gall gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, yn enwedig y sectorau ffermio a choedwigaeth, helpu i adfer cynefin yr afon. Yn olaf, mae pysgota anghyfreithlon a sgil-ddalfa o arferion rhwydo sewiniaid gyda chaniatâd ar Afon Tywi hefyd yn broblem i'r rhywogaeth hon. | ansawdd y dŵr<br>• Mesurau Rheoli Llifogydd Naturiol dalgylch cyfan i ostwng llif brig i afonydd gan leihau'r wyau/pysgod ifanc sy'n cael eu golchi ymaith. |
| *Salmo trutta* - brithyll/sewin<br><br>© Dave Mee | •**Statws presennol:** • Mae brithyll i'w canfod fwy neu lai ym mhob afon lân yn y sir, ac eithrio uwchben rhwystrau naturiol sy'n eu hatal rhag mudo. Mewn gwirionedd, ffurfiau gwahanol o'r un rhywogaeth yw brithyll a sewin. Mae'r gwrywod yn tueddu i aros yn yr afonydd a pharhau'n frithyll, tra bod y benywod yn tueddu i anelu am y môr os bydd modd. Er bod y daith yn beryglus, gall sewin dyfu'n llawer mwy a chynhyrchu llawer mwy o wyau. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y brithyll yn mudo i fyny ac i lawr yr afon er mwyn chwilio am safleoedd bwydo gwell. Mae afon Tywi yn enwog am ei sewiniaid mawr.<br>• **Tueddiadau: Gostyngiadau difrifol**– er enghraifft, mae Afon Tywi wedi'i dosbarthu gan CNC fel ardal sydd 'Fwy na thebyg mewn perygl' ar gyfer sewiniaid, ac mae ei stoc o sewiniaid wedi'i dynodi'n 'fregus', gyda CNC yn dweud nad yw'n llwyddo i gyrraedd y targed rheoli.<br>• **Bygythiadau:** Y prif fygythiadau i Eogiaid a Brithyllod mewn afonydd yw ansawdd dŵr gwael, sythu sianeli a gor-ledu gan leihau cynefinoedd a'r gallu i wrthsefyll llif eithafol yn gysylltiedig â'r hinsawdd, a difrod i gynefin yn sgil gorbori ar lannau afonydd, sy'n achosi i afonydd orgynhesu, yn eu llenwi â silt ac yn golygu colli cysgod. Mae rheolaeth wael o blaladdwyr/slyri, gan gynnwys gollyngiadau, hefyd yn lladd y pysgod a'r infertebratau y mae'r pysgod yn bwydo arnynt. Mae colli mynediad i gynefin silio oherwydd argaeau a morgloddiau hefyd yn broblem, ac mewn ardaloedd ucheldirol mae asideiddio yn parhau i roi straen ar boblogaethau, a choedwigaeth yn gwaethygu hynny. Gall gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, yn enwedig y sectorau ffermio a choedwigaeth, helpu i adfer cynefin yr afon. Yn olaf, mae pysgota anghyfreithlon a sgil-ddalfa o arferion rhwydo sewiniaid gyda | • Cael gwared â rhwystrau yn yr afon fel coredau<br>• Gwneud gwaith i adfer cynefinoedd mewn afonydd, fel ailgyflwyno troeon mewn afonydd, ac ychwanegu coed ar y glannau a deunydd coediog mawr yn llif yr afon.<br>• Ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd i leihau cyflymder y dŵr ac atal wyau/pysgod ifanc rhag cael eu golchi ymaith pan fo'r llif yn uchel.<br>• Gwelliannau i'r dalgylch er mwyn gwella ansawdd y dŵr<br>• Mesurau Rheoli Llifogydd Naturiol dalgylch cyfan i ostwng llifoedd brig i afonydd gan leihau'r wyau/pysgod ifanc sy'n cael eu golchi ymaith. |

| RHYWOGAETHAU | TROSOLWG O SIR GAERFYRDDIN | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | chaniatâd ar Afon Tywi hefyd yn broblem i'r rhywogaeth hon. | |